

Etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 6 o 6 - Ar ôl datgan y canlyniad

Ionawr 2016

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan yn:

www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents.

Cynnwys

Tyngu llw o deyrngarwch neu gadarnhau a gwybodaeth ar gyfer Aelodau newydd	2
Dychwelyd ernes.....	3
Etholiad etholaethol	3
Etholiad rhanbarthol.....	3
Deisebau etholiadol	3
Beth fydd yn digwydd i waith papur yr etholiad ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan?	4
Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiad	4
Cyflwyno deiseb etholiadol	5
Archwilio a chyflenwi dogfennau sy'n gysylltiedig ag etholiadau	6
Archwilio a darparu'r cofrestrau a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio.....	8
Archwilio dogfennau etholiadol eraill.....	9
Archwilio ffurflenni gwariant etholiad.....	9

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar beth sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein **Dogfen drosolwg** am fanylion cyswilt.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at bob ymgeisydd sy'n sefyll etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfeiriwn at ymgeiswyr nas cynhwysir ar restr plaid yn yr etholiad rhanbarthol fel 'ymgeiswyr rhanbarthol unigol'.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau perthnasol drwy'r ddogfen hon, ond gallwch hefyd weld [amserlen etholiad](#) ar wahân yn nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan.

Tyngu llw o deyrngarwch neu gadarnhau a gwybodaeth ar gyfer Aelodau newydd

- 1.1 Os cewch eich ethol, cewch wybodaeth yn egluro beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn cyrraedd y Cynulliad a sut y gallwch fod yn bresennol yn y Cynulliad. Bydd hon yn cwmpasu materion ymarferol fel pryd y gallwch dyngu'r llw neu wneud y cadarnhad, materion diogelwch a threfniadau ar gyfer dod â gwesteion gyda chi.
- 1.2 Os cewch eich ethol, bydd staff Comisiwn y Cynulliad hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i chi i'ch helpu i ymgyswngi â'ch rôl a'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio.
- 1.3 Cyn y gall unigolyn eistedd a phleidleisio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid iddo dyngu llw o deyrngarwch neu wneud cadarnhad i'r frenhines. Gelwir hyn yn broses dyngu a bydd yn digwydd ar ddechrau sesiwn newydd y Cynulliad.
- 1.4 Nes y bydd Aelod wedi tyngu'r llw neu wneud y cadarnhad, rhaid iddo beidio â gwneud unrhyw beth fel Aelod Cynulliad heblaw cymryd rhan yn etholiad y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd. Ni all Aelodau Cynulliad dyngu'r llw na gwneud y cadarnhad nes y bydd y Swyddog Canlyniadau wedi derbyn cadarnhad ei fod wedi'i ethol. Bydd trefniadau ar waith er mwyn i hyn ddigwydd yn gyflym.
- 1.5 Bydd rhaglen gymorth fanwl ar gael yn ystod eich wythnosau cyntaf fel Aelod Cynulliad. Byddwch hefyd yn cael cyngor ar sefydlu swyddfa yn eich etholaeth neu ranbarth, gan recriwtio staff ac ar eich dyletswyddau fel cyflogwr. Byddwch yn cael swyddfa yn Nhŷ Hywel a chyfarpar TGCh cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr etholiad.
- 1.6 Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru: www.assembly.wales/information-for-election-candidates
- 1.7 Os hoffech drafod unrhyw rai o'r materion uchod, cysylltwch â: membersliaison@assembly.wales

Dychwelyd ernes

Etholiad etholaethol

1.8 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn dychwelyd ernes yr ymgeiswyr etholaeth hynny sydd wedi cael mwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholaeth erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan y canlyniad.

1.9 Bydd yr ymgeiswyr hynny a gaiff 5% neu lai o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholaeth yn colli eu hernes.

Etholiad rhanbarthol

1.10 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn dychwelyd yr ernes a wnaed gan neu ar ran unrhyw ymgeisydd rhanbarthol unigol neu restr plaid gofrestredig sydd wedi cael mwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholiad rhanbarthol erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan y canlyniad.

1.11 Bydd yr ymgeiswyr rhanbarthol unigol hynny a phleidiau cofrestredig sydd wedi cael 5% neu lai o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn y rhanbarth yn colli eu hernes.

Deisebau etholiadol

1.12 Gellir herio canlyniad etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddeiseb etholiadol. Ceir rhagor o wybodaeth am herio etholiad ym mharagraff **1.20**.

Beth fydd yn digwydd i waith papur yr etholiad ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan?

1.13 Ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan, caiff yr holl ddogfennau etholiadol eu cadw'n ddiogel gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y cânt eu derbyn.

1.14 Mae'r rhan fwyaf o ddogfennau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Nodwch nad yw papurau pleidleisio ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Os hoffech archwilio dogfennau etholiadol, ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraff **1.28**.

Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiad

1.15 Os gwnaethoch sefyll etholiad yn yr etholiad etholaethol o fewn 35 diwrnod calendr i ddatgan canlyniad yr etholiad, bydd angen i'ch asiant etholiadol baratoi ffurflen gwariant etholiad a'i chyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

1.16 Os gwnaethoch sefyll etholiad fel ymgeisydd rhanbarthol unigol o fewn 35 diwrnod calendr i ddatgan canlyniad yr etholiad, bydd angen i'ch asiant etholiadol baratoi ffurflen gwariant etholiad a'i chyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.17 Hefyd, yn achos ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol, rhaid i chi a'ch asiant etholiadol lofnodi datganiad yn nodi bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eich gwytodaeth a'ch cred.

1.18 Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn ffurflen gwariant ymgeisydd yn [Rhan 3 - Gwariant a rhoddion](#). Rydym hefyd wedi llunio ffurflenni y gallwch eu defnyddio i gwblhau eich ffurflen. Mae'r ffurflenni hyn - a'r nodiadau manwl atodol sy'n egluro sut y dylech gwblhau a chyflwyno eich ffurflen - i'w gweld o dan Ran 3 [ar ein gwefan](#).

Rhaid i bleidiau gwleidyddol sy'n ymladd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2016 hefyd roi gwybod i ni am fanylion eu gwariant ar ymgyrchu. Ceir gwytodaeth fanwl yn eich [dogfen ganllaw ar gyfer pleidiau gwleidyddol](#).

1.19 Rhaid i ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol gyflwyno datganiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol bod ffurflen gwariant y blaid yn gywir. Rhaid gwneud hyn o fewn saith diwrnod i'r blaid gyflwyno ei ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. Dylai pleidiau sy'n gwario £250,000 neu lai gyflwyno ffurflenni pleidiau erbyn 5 Awst 2016, a dylai pleidiau sy'n gwario mwy na'r swm hwn eu cyflwyno erbyn 5 Tachwedd.

Gwybodaeth atodol

Cyflwyno deiseb etholiadol

1.20 Dim ond rhai pobl a gaiff gyflwyno deiseb etholiadol, a dim ond o dan amgylchiadau arbennig.

1.21 Gellir cyflwyno deiseb etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan:

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- rhywun sy'n honni bod ganddo hawl i gael ei ethol yn yr etholiad, neu
- rywun a bleidleisiodd fel etholwr yn yr etholiad neu yr oedd ganddo hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw etholwyr a gofrestrwyd yn ddiennw

1.22 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw bod y canlynol wedi digwydd:

- etholiad diangen, neu
- ffurflen ddiangen

1.23 Ceir proses farnwrol ar wahân ar gyfer herio etholiad Aelod Cynulliad ar y sail ei fod wedi'i anghymwyso ar y pryd neu yn y gorffennol, drwy wneud cais i'r Uchel Lys.

1.24 Mae'n rhaid i'r Aelod y gwneir cwyn ynglŷn â'i ethol fod yn wrthapeliwr i'r ddeiseb. Os bydd y ddeiseb yn cwyno am ymddygiad y Swyddog Canlyniadau (naill ai y Swyddog Canlyniadau Etholaethol a/neu y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol) neu ei staff yn ystod yr etholiad, rhaid mai'r Swyddog(ion) Canlyniadau fydd y gwrthapeliwr.

1.25 Fel arfer mae'n rhaid cyflwyno deiseb o fewn 21 diwrnod calendr o ddatgan enw'r ymgeisydd sydd wedi ei ethol i Glerc y Cynulliad. Fodd bynnag, os bydd y ddeiseb yn cwyno am arferion llwgr neu anghyfreithlon sy'n ymwneud â thalu arian neu roi math arall o wobr, neu arfer anghyfreithlon sy'n ymwneud â gwariant etholiad, gellir caniatáu mwy o amser.

1.26 Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â deisebau etholiadol, yn cynnwys cadarnhau'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deiseb etholiadol, dylech gysylltu â:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk

Ffôn: 0207 947 6877

1.27 Mae costau yn gysylltiedig â deiseb etholiadol. Os ydych yn ystyried cyflwyno deiseb etholiadol, rydym yn argymhell yn gryf y dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Archwilio a chyflenwi dogfennau sy'n gysylltiedig ag etholiadau

1.28 Heblaw ffurflenni gwariant a datganiadau, caiff yr holl ddogfennau etholiadol eraill sydd ar gael i'w darparu a'u

harchwilio eu cadw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Ceir
manylion cyswllt yn www.fymhleidlaisi.co.uk.

Archwilio a darparu'r cofrestrau a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio

1.29 Mae'r cofrestrau etholiadol a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio yn dangos pwy sydd wedi cael papurau pleidleisio, pwy sydd wedi dychwelyd eu papurau pleidleisio drwy'r post, a phwy sydd wedi trefnu bod pleidlais drwy ddirprwy yn cael ei bwrw ar eu rhan.

1.30 Gallwch archwilio neu gael copïau o'r gofrestr o etholwyr a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio ar ôl yr etholiad os gwnewch gais ysgrifenedig. Os gwnaethoch sefyll fel ymgeisydd etholaethol, gallwch archwilio neu gael copïau o'r cofrestrau a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio ledled yr etholaeth. Os gwnaethoch sefyll fel ymgeisydd rhanbarthol unigol neu os oeddech yn ymgeisydd ar restr plaid a etholwyd fel Aelod Cynulliad Rhanbarthol, gallwch gael mynediad i'r cofrestrau a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio ledled y rhanbarth.

1.31 Er mwyn archwilio neu gael copïau o'r gofrestr a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol wedi'u marcio, rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Ceir manylion cyswllt yn www.fymhleidlaisi.co.uk

1.32 Dylech fod yn ymwybodol mai dim ond at ddibenion ymchwil neu ddibenion etholiadol y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a geir o'r dogfennau hyn.

1.33 Rhaid i'r cais am archwiliad nodi:

- pa ddogfennau y gwneir cais amdanynt
- at ba ddibenion y defnyddir y wybodaeth mewn unrhyw ddogfen
- pan fo'r cais ar gyfer archwilio'r gofrestr neu restrau wedi'u marcio, unrhyw reswm pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu'r rhestrau heb eu marcio yn ddigon at y diben hwnnw
- pwy fydd yn archwilio'r dogfennau
- y dyddiad yr hoffai'r unigolyn archwilio'r dogfennau, ac
- a fyddai'n well ganddo archwilio'r dogfennau ar ffurf argraffedig neu ddata

1.34 Caiff archwiliadau eu cynnal dan oruchwyliaeth a byddant yn rhad ac am ddim. Ni fyddwch yn cael mynd â chopïau, ond gallwch wneud nodiadau â llaw.

1.35 Rhaid i'r cais nodi'r canlynol:

- pa rai o'r gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio (neu'r rhan berthnasol o'r gofrestr neu'r rhestrau) y gwneir cais amdanynt
- a ydynt am gael copi argraffedig o'r cofnodion neu restrau neu gopi ar ffurf data
- at ba ddibenion y defnyddir y gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio a pham na fyddai darparu neu brynu copi o'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio yn ddigon i gyflawni'r diben hwnnw

1.36 Codir ffi o £10 ynghyd â £2 am fersiwn argraffedig a £1 am fersiwn ddata fesul 1,000 am y ddogfen y gwneir cais amdani.

1.37 Ar ôl 12 mis, caiff y dogfennau hyn eu dinistrio, oni fydd gorchymyn llys yn nodi'n wahanol.

Archwilio dogfennau etholiadol eraill

1.38 Gallwch archwilio dogfennau etholiadol eraill, ond ni fyddwch yn cael gwneud unrhyw nodiadau na chymryd copïau o'r dogfennau hyn. Yr unig ddogfennau na ellir eu harchwilio yw:

- y papurau pleidleisio
- y rhestrau rhifau cyfatebol
- y tystysgrifau sy'n caniatáu i staff gorsafoedd pleidleisio bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi
- papurau enwebu

1.39 Ar ôl 12 mis, caiff yr holl ddogfennau etholiadol, heblaw ffurflenni gwariant etholiad, eu dinistrio, oni fydd gorchymyn llys yn nodi'n wahanol.

Archwilio ffurflenni gwariant etholiad

Dim ond yn ystod yr amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu y gellir eu darllen, a dim ond gan y sawl y mae hawl ganddynt i fod yn bresennol. Cheir rhagor o fanylion yn [Rhan 2a - Sefyll yr etholiad etholaethol](#) a [Rhan 2b - Sefyll yr etholiad rhanbarthol](#).

1.40 Gall unrhyw un archwilio ffurflenni gwariant a datganiadau a ddelir gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar ôl iddynt gael eu cyflwyno am ffi o £1.50. Mae copïau hefyd ar gael am ffi o 15c bob ochr tudalen.

1.41 Cedwir ffurflenni gwariant a datganiadau am ddwy flynedd. Gallwch wneud cais iddynt gael eu dychwelyd atoch neu at eich asiant ar ddiwedd y cyfnod hwn. Os nad ydych chi neu eich asiant am eu cael yn ôl, caiff y dogfennau eu dinistrio.